Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

SICRHAU GWELLIANT TRWY AROLYGU ANNIBYNNOL A GWRTHRYCHOL

Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys

Archwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap

Dyddiad yr ymweliad 25 Tachwedd 2009

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Ffordd Fan
CAERFFILI
CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850
Ffacs: 029 2092 8877

www.hiw.org.uk

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2010

Cynnwys

		Rhif y Dudalen
1.	Cyflwyniad	1
2.	Canfyddiadau: Cryfderau, meysydd i'w gwella ymhellach a chamau y mae angen eu cymryd	2
2.1	Yr Amgylchedd Cyffredinol	3
2.2	Ward Adelina Patti	3
	Yr Amgylchedd	4
	Trin a gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	6
	Cyfarpar a Storfeydd	6
	Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staf	7

1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2006, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan gleifion a'r cyhoedd o bob rhan o Gymru, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei bwriad i gynnal archwiliadau dirybudd, ar hap, o lanweithdra sefydliadau gofal iechyd ledled Cymru. Cynhelir rhaglen o ymweliadau dirybudd bob blwyddyn.

1.2 Ystyrir gwybodaeth o sawl gwahanol ffynhonnell sy'n berthnasol i'r agenda hon, a ddefnyddir i bennu cyfeiriad y rhaglen archwiliadau ar hap. Rydym yn parhau i adolygu'r rhaglen yn gyson gan ystyried unrhyw wybodaeth newydd a ddaw i'n sylw.

1.3 Fel rhan o'n Harchwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap, rydym yn cynnal trafodaethau â'r staff clinigol ac yn arsylwi mannau clinigol yn uniongyrchol. Mae'r rhestr wirio a ddefnyddir i lywio'r archwiliadau yn seiliedig ar y pecyn archwilio Rheoli Heintiau a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Atal Heintiau (IPS).

1.4 Mae mwy o wybodaeth am AGIC, ei hymweliadau ar hap a'r pecyn archwilio a ddefnyddir i'w gweld yn www.hiw.org.uk

Ymweliad â Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys

1.5 Ar 25 Tachwedd 2009 ymwelodd AGIC â Ward Adelina Patti yn ysbyty Ystradgynlais, sy'n rhan o Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys (BILl), gan gynnal archwiliad glanweithdra ar hap.

1.6 Nodir ein canfyddiadau yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn. Rydym yn tynnu sylw at gryfderau, yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella ymhellach, ac yn argymell camau gweithredu. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd baratoi cynllun gwella i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol sy'n destun pryder, a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

2. Canfyddiadau: Cryfderau, meysydd i'w gwella ymhellach a chamau y mae angen eu cymryd

2.1 Amgylchedd Cyffredinol Ysbyty Ystradgynlais

Ystyriwyd bod safon glanweithdra amgylchedd cyffredinol yr ysbyty drwyddo draw yn dderbyniol. Gwelwyd nad oedd annibendod nac eitemau amhriodol yn y coridorau na'r llwybrau cerdded.

2.2 Ward Adelina Patti

Ymwelwyd ag ysbyty Ystradgynlais fel rhan o'r gwaith maes a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2009 ar gyfer ein hadroddiad *Adolygiad Cymru Gyfan o Ofal a Rheolaeth Cleifion sy'n Dioddef o'r Dolur Rhydd a Chwydu.* O ganlyniad, codwyd pryderon ynghylch materion yn ymwneud â'r ystâd, glanweithdra a rheoli heintiau ar Ward Adelina Patti. Cyflwynwyd hysbysiad gweithredu ar unwaith i BILl Powys, gan fynnu ei fod yn paratoi cynllun gweithredu a'i roi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r materion a oedd yn destun pryder. Yn rhan o'r cynllun gweithredu, cadarnhaodd y BILl y byddai'r holl gamau gweithredu ar gyfer y ward yn cael eu cwblhau erbyn mis Hydref 2009.

Cadarnhawyd yn ystod yr ymweliad hwn bod y BILl wedi mynd i'r afael â nifer o'r materion a nodwyd gennym, ond nad oedd y gwaith atgyweirio wedi'i gwblhau. Dywedwyd wrthym mai'r rheswm am hyn oedd bod y Bwrdd Iechyd wedi manteisio ar y cyfle i ystyried y ffordd orau o fwrw ymlaen â'r gwaith atgyweirio, o safbwynt gofal cleifion. Dywedwyd wrthym hefyd bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ba un a oedd angen adnewyddu'r olchfa yn gyfan gwbl, neu a ellid ymdrin â'r pryderon a godwyd trwy osod unedau ac arwynebau gwaith newydd yn unig.

Yr Amgylchedd

Gwelwyd bod safon glanweithdra'r ward yn gyffredinol yn dderbyniol, a bod y gwaith glanhau domestig yn dda.

- Gwelwyd bod yr ystafelloedd ymolchi yn lân, ac nad oedd eitemau amhriodol ynddynt.

- Roedd gan y ward broses eglur ar gyfer defnyddio teclynnau codi cleifion, a honno wedi'i harddangos yn eglur ar gyfer y staff i gyd. Ystyrir bod hyn yn arfer i'w ganmol.

- Cypyrddau dillad pren sydd ym mannau gwelyau'r cleifion, ac maent wedi'u difrodi ac mewn cyflwr gwael. Dylid cael rhai newydd yn eu lle gan y gallent achosi halogiad oherwydd nad oes modd glanhau pren yn effeithiol.

- Wrth archwilio, cafwyd hyd i gomôd nad oedd wedi'i lanhau i safon dderbyniol. Dylid sefydlu dull cyson o lanhau comodau trwy'r sefydliad cyfan. Dylid gosod arwydd amlwg hefyd i ddangos bod y comôd yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.

- Nid yw'r pren o amgylch y sinc yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron yn dderbyniol. Dylid gosod deunydd arall yn ei le gan y gall achosi halogiad oherwydd nad oes modd glanhau pren yn effeithiol.

- Roedd y sêl wedi torri o amgylch ambell i sinc ar y ward. Dylid gosod sêl newydd gan y gallai achosi halogiad oherwydd nad oes modd glanhau'n effeithiol.

- Roedd yr ystafell ddomestig yn amlwg yn fudr ac roedd nifer o eitemau amhriodol yn cael eu cadw ynddi. Mae hyn yn annerbyniol a dylai'r staff sicrhau bod yr ystafell yn cael ei chadw'n lân ac nad oes eitemau amhriodol ynddi.

Nid oedd basn golchi dwylo ar gael yn yr ystafell ddomestig, i'r staff gael golchi eu dwylo. Dylid mynd i'r afael â hyn.

Trin a gwaredu dillad gwely a llieiniau, gwastraff ac eitemau miniog

- Roedd silffoedd pren yn y cwpwrdd dillad. Nid yw hyn yn dderbyniol a dylid gosod silffoedd eraill yn eu lle gan y gallent achosi halogiad oherwydd nad oes modd glanhau pren yn effeithiol.

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân ar y ward yn cael eu cadw'n gywir mewn man dynodedig, a'r holl rai a oedd wedi'u defnyddio yn cael eu cadw ar wahân mewn bagiau o'r lliw priodol a'u cadw'n gywir cyn eu gwaredu. Er hynny, roedd rhai eitemau amhriodol yn cael eu cadw yn yr ystafell dillad gwely a llieiniau, a dylid symud y rhain i rywle arall.

Roedd y ward yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol o ran trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel, ar wahân i'r defnydd o hambyrddau eitemau miniog. Ni allem weld unrhyw dystiolaeth eu bod yn cael eu defnyddio ar y ward, ac felly nid yw'n eglur sut y mae'r staff yn cael gwared ar eitemau miniog pan eu bod wrth welyau'r cleifion.

Cyfarpar a storfeydd

Yn gyffredinol, gwelwyd bod y cyfarpar ar y ward yn lân, a'r offer yn cael eu storio'n ddiogel ac yn briodol. Er hynny, gwelwyd bod llwch ar y troli dadebru. Dylid sefydlu a chofnodi system lanhau ar gyfer y sefydliad cyfan, a sicrhau ei bod yn gadarn ac yn eglur i'r staff fel eu bod yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth, a phryd.

Ceir un ystafell ymolchi ar y ward nad yw'n cael ei defnyddio fel ystafell ymolchi mwyach. Fe'i defnyddir i gadw cyfarpar ac eitemau eraill, ac mae hyn yn annerbyniol. Os nad oes angen yr ystafell ymolchi mwyach, dylid cael gwared ar y baddon a'r toiled a neilltuo'r ystafell at ddiben arall gan fod yr arfer presennol yn annerbyniol.

Gwybodaeth ac arferion gwaith y staff

Roedd y staff y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliad wedi cael hyfforddiant ar reoli heintiau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, gwelwyd wrth arsylwi'r arferion hylendid dwylo bod staff yn tueddu i orddefnyddio menyg, a dibynnu arnynt ar gyfer pob cyswllt â'r cleifion. Sylwyd hefyd nad oedd y staff bob amser yn dadhalogi eu dwylo ar ôl tynnu eu menyg. Dylid hyfforddi'r holl staff ynglŷn â phryd y dylid golchi eu dwylo, pryd i ddefnyddio gel alcohol a phryd i wisgo menyg.

Nid yw'r sinc golchi dwylo wrth un o fannau gwelyau'r cleifion yn dderbyniol gan nad yw'r tapiau'n cydymffurfio â safon HTM 64. Dylid gallu agor a chau'r tapiau ar bob sinc clinigol golchi dwylo gyda'r penelin neu'r pen-glin, neu dylent weithio gyda synwyryddion. Dylai fod yn rhwydd agor a chau'r tapiau heb halogi'r dwylo.

Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo, ac mae canlyniadau'r archwiliadau blaenorol wedi dangos bod y staff yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau i raddau helaeth. Fodd bynnag, cynhaliwyd archwiliad hylendid dwylo yn ystod ein hymweliad, a gwelwyd mai dim ond 60% oedd canran cydymffurfiad y staff ynglŷn â hyn. Dylid cynnal archwiliadau hylendid dwylo unwaith y mis er mwyn sicrhau y cynhelir yr arferion gorau. Dylai'r staff fod yn rhan o'r broses a dylent gael gwybod beth yw'r canlyniadau fel bod modd mynd i'r afael yn brydlon ag unrhyw broblemau a nodir.

Nid oedd digon o arwyddion o gwmpas y ward yn ymwneud â'r defnydd o gel alcohol. Dylid sicrhau bod staff, cleifion ac ymwelwyr yn fwy ymwybodol o hylendid dwylo, ac felly dylid gosod posteri priodol o amgylch y ward.